**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os bydd Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) (“y Bil”) yn Nhŷ’r Arglwyddi ar 4 Medi. Mae’r Bil ar gael yma: https://bills.parliament.uk/bills/3751.

## Yr Amcan(ion) Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) i gryfhau pwerau'r rheoleiddiwr a mynd i'r afael â materion llygredd dŵr. Cyhoeddwyd y Bil yn Araith y Brenin ar 17 Gorffennaf ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth Lafur. Mae'r Bil arfaethedig yn ymateb i'r methiannau eang canfyddedig gan y sector dŵr o ran mynd i'r afael â llygredd a achosir gan ollyngiadau carthion a seilwaith sy'n heneiddio. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig wedi cytuno y dylai'r holl ddarpariaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio'r diwydiant dŵr, ac eithrio un, fod yn gymwys i Gymru.

## Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

5. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn cwmpasu mesurau a fydd yn cryfhau pwerau rheoleiddwyr y diwydiant dŵr, gan gynnwys Ofwat, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI).

6. Gofynnodd Llywodraeth y DU am farn Llywodraeth Cymru ar y Bil arfaethedig yn gynnar yn y broses. Ysgrifennodd Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd ar 26 Gorffennaf yn cynnig cydweithio ac ymestyn y darpariaethau i Gymru, os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno gwneud hynny. Cytunodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd, mewn egwyddor, i ymestyn y ddarpariaeth i Gymru a cheisio pwerau sy'n cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Gweinidogion Cymru drwy'r Bil. Cafwyd drafft cychwynnol o'r Bil gan DEFRA ar 20 Awst ac ar ôl ychwanegu sawl

[1] Nodwch, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, y byddwn yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel “Senedd Cymru” y tro cyntaf, ac wedyn “y Senedd”, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

mesur, rhannodd DEFRA Fil drafft terfynol ar 29 Awst. Mae swyddogion polisi dŵr wedi bod yn ymgysylltu â chydweithwyr yn DEFRA i asesu'r mesurau arfaethedig ac asesu eu perthnasedd i Gymru a'u heffaith arni cyn cyflwyno.

7. Gwneir y newidiadau a weithredir gan y Bil drwy gyfuniad o ddarpariaethau annibynnol a diwygiadau i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991, gyda'r ddwy Ddeddf hynny'n cynnwys cyfran sylweddol o'r dirwedd ddeddfwriaethol bresennol o ran dŵr.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

8. Mae cymalau canlynol y Bil wedi cael eu nodi fel rhai sydd angen cydsyniad oherwydd eu bod yn ymwneud â'r diwydiant dŵr, sy'n fater datganoledig.

<u>Cymal 1 Rheolau ynghylch tâl cydnabyddiaeth a llywodraethiant</u>

Bydd y Bil yn creu fframwaith newydd ar gyfer dal cwmnïau a phrif weithredwyr yn atebol am lywodraethiant a thâl cydnabyddiaeth, â'r nod o wella perfformiad ac adfer ymddiriedaeth yn y sector. Ni fydd y darpariaethau yn y Bil yn nodi'r rheolau ar dâl cydnabyddiaeth a llywodraethiant eu hunain, ond byddant yn rhoi'r pŵer i Ofwat osod rheolau ar gyfer cwmnïau dŵr. Mae'n ofynnol i Ofwat ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, cwmnïau dŵr a phartïon perthnasol eraill ar yr holl reolau cyn eu gweithredu.

<u>Cymal 3 Gorlifoedd argyfwng</u>

Mae hyn yn gosod gofyniad newydd ar gwmnïau dŵr i gyhoeddi data sy'n agos at amser real (o fewn awr) ar ollyngiadau o bob gorlif argyfwng erbyn mis Ebrill 2035. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr osod offer Monitro Hyd Digwyddiad (EDM) ar bob gorlif argyfwng. Mae'r offer monitro hyn eisoes ar waith yng Nghymru ond nid yw'n ofynnol cyflwyno adroddiadau ar hyn o bryd. Mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb o dan y cymal hwn mewn perthynas ag ymgymerwyr carthffosiaeth y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer eithriadau i'r ddyletswydd o dan y cymal hwn.

<u>Cymal 4 Rhwystro ymchwiliadau: dedfrydu ac atebolrwydd</u>

Mae darpariaethau eisoes yn bodoli i ganiatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ddwyn cyhuddiadau troseddol yn erbyn cwmnïau a gweithredwyr, ond mae’r trothwy yn uchel o ran y dystiolaeth y mae’n rhaid ei darparu. Mae rhai rheoleiddwyr wedi wynebu problemau o ran casglu tystiolaeth ar gyfer erlyniadau oherwydd bod ymchwiliadau wedi'u rhwystro. Ni ellir defnyddio cyfnod mewn carchar fel cosb bob amser am rwystro'r

rheoleiddwyr, nac ychwaith roi achosion o rwystro'r rheoleiddwyr ar brawf yn Llys y Goron. Bydd y Bil yn cyflwyno darpariaethau a fydd yn:

- galluogi'r llysoedd i gynnwys carchar fel sancsiwn mewn achosion pan fo ymchwiliadau'r rheoleiddwyr wedi cael eu rhwystro;
- galluogi'r drosedd hon i gael ei chlywed yn Llys y Goron; a
- galluogi swyddogion gweithredol a chyfarwyddwyr i gael eu herlyn am y drosedd hon, pan fo'n cael ei chyflawni gyda'u cydsyniad neu eu hymoddefiad, neu y gellir ei phriodoli i'w hesgeulustod.

<u>Cymal 5 Cosbau sifil: addasu safon brofi</u>

Wrth gymhwyso sancsiynau sifil o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ("Deddf 2008") y gofyniad presennol yw bod yn rhaid i'r rheoleiddiwr gael ei fodloni y tu hwnt i amheuaeth resymol bod y cwmni neu'r unigolyn wedi cyflawni'r drosedd berthnasol cyn cymhwyso'r gosb sifil. Mae Gweinidogion DEFRA o'r farn bod y safon brofi hon yn anghymesur o uchel ar gyfer rhai troseddau bach a chymedrol sy'n ymwneud â dŵr, a'i fod yn cyfyngu ar allu'r rheoleiddiwr i ddwyn camau gorfodi yn llwyddiannus.

O dan y ddarpariaeth newydd, gall Gweinidogion Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf 2008 a fydd yn caniatáu i'r rheoleiddiwr gymhwyso sancsiynau sifil i droseddau penodedig a gyflawnir gan gwmnïau dŵr ar sail safon brofi is yn ôl "pwysau tebygolrwydd". Nod hyn yw ei gwneud yn haws i reoleiddwyr ddwyn camau gorfodi yn erbyn cwmnïau dŵr sydd wedi cyflawni troseddau amgylcheddol penodol. Bwriad y ddarpariaeth newydd hon yw cyd-fynd ag unrhyw sancsiynau sifil presennol a'u hategu, yn ogystal â'r gallu sydd gan y rheoleiddiwr o hyd i fynd ar drywydd erlyniad troseddol fel dewis arall. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth a bydd deddfwriaeth o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

<u>Cymal 6 Cosbau awtomatig am droseddau penodol</u>

Diben y cosbau awtomatig yw gosod dyletswydd ar y rheoleiddiwr i gymryd camau gorfodi pryd bynnag y mae ganddynt ddigon o dystiolaeth i ddangos bod cwmni dŵr wedi cyflawni trosedd. Nodir eithriadau i'r ddyletswydd i gymhwyso cosb awtomatig yng nghymal 6(5) ac maent yn cynnwys amgylchiadau pan fo'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys sy'n lliniaru ar y bai sydd ar y cwmni. Gallai hyn gynnwys amgylchiadau pan fo achosion o dorri rheolau yn digwydd am resymau y tu hwnt i reolaeth y cwmni, megis methiannau TG neu pan fo ymyrraeth trydydd parti ag asedau'r cwmni. Mae eithriadau hefyd yn cael eu cymhwyso pan fo camau mwy difrifol yn cael eu hystyried, megis achos troseddol neu gosbau ariannol amrywiol. Rhaid i'r troseddau y gall cosbau awtomatig fod yn gymwys iddynt gael eu pennu gan is-ddeddfwriaeth.

Cymal 7 Tynnu a chronni: pŵer i osod amodau cyffredinol

Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau at ddiben sicrhau bod trwyddedau diwydiant dŵr o dan y Bennod hon yn cael effaith, yn amodol ar reolau neu amodau a bennir yn y rheoliadau.

Cymal 8 Taliadau mewn perthynas â swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru

Mae gweithgareddau rheoleiddio Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu hariannu'n rhannol drwy daliadau trwyddedu amgylcheddol a thrwyddedu tynnu dŵr ar weithredwyr gweithgareddau perthnasol a reoleiddir. Bydd y Bil yn ehangu'r pwerau sydd ar gael i Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, gan eu galluogi i adennill eu costau ar gyfer gorfodi gan gwmnïau dŵr.

Cymal 9 Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed: swyddogaethau a ffioedd

Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru ac yn gyfrifol am reoleiddio'r Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch a Brys ar gyfer cwmnïau dŵr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.  Ar hyn o bryd ni all yr Arolygiaeth adennill costau llawn am y gwaith hwn. Bydd y Bil yn gwneud diwygiadau i adrannau 86 ac 86ZA o Ddeddf y Diwydiant Dŵr. Bydd hyn yn caniatáu i ddiwygiadau dilynol gael eu gwneud i Orchymyn Ansawdd a Chyflenwad Dŵr (Ffioedd) 2016 i sicrhau bod yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yn gallu adennill ei chostau o ran y Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch a Brys yn llawn.

Cymal 11 Addasiad gan Weinidogion Cymru o amodau penodi cwmni dŵr etc i adennill colledion

Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â chyfundrefn gweinyddu arbennig sy'n gymwys pan fydd cwmni dŵr yn destun ansolfedd. Mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb mewn perthynas â chwmni dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Bydd y Bil yn sicrhau y gellir adennill yn llawn unrhyw ddiffyg posibl mewn cyllid a ddarperir gan y llywodraeth yn ystod gweinyddiaeth arbennig.

Cymal 12 Deisebau dirwyn i ben

Ar hyn o bryd, os bydd cwmni dŵr yn mynd yn ansolfent, gallai ei gyfarwyddwyr neu gredydwyr wneud ‘deiseb dirwyn i ben’ (offeryn cyfreithiol a ddefnyddir gan gredydwyr yn gofyn i gwmni gael ei ddatgan yn ansolfent) heb hysbysu'r llywodraeth nac Ofwat. Yn yr achos llys dilynol, nid oes gofyniad cyfreithiol i’r llywodraeth nac Ofwat gael eu clywed. I fynd i'r afael â'r bwlch hwn, bydd y Bil yn gosod gofyniad i'r llywodraeth ac Ofwat gael eu hysbysu am unrhyw ddeiseb

dirwyn i ben a gyflwynir i'r llys ac yn rhoi hawliau gwarantedig i'r ddau barti gyflwyno sylwadau.

Cymal 13 Rhychwant, cychwyn, darpariaeth drosiannol ac enw byr

Mae’r cymal hwn yn nodi pryd a sut y bydd darpariaethau’r Bil yn dod i rym.

9. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn cynnwys darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn addasu cymhwysedd y Senedd.

10. Mae'r Bil yn cynnwys pwerau uniongyrchol ac anuniongyrchol i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mae cymalau 3 a 6 yn cynnwys pwerau uniongyrchol i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ac mae'r pwerau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd. Mae cymal 7 yn mewnosod pwerau newydd i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991, a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Yn olaf, mae cymal 13 yn rhoi pwerau cychwyn i Weinidogion Cymru nad ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.

11. Mae'r darpariaethau ym mharagraff 11 yn ymwneud â rheoleiddio'r diwydiant dŵr, sy'n faes cymhwysedd datganoledig.

**Barn Llywodraeth y DU am yr angen i gael cydsyniad**

12. Mae Llywodraeth y DU wedi llunio asesiad datganoli sy'n nodi bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer holl gymalau'r Bil, ac eithrio cymalau 2 a 10 sydd ddim yn gymwys yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno gyda’r asesiad hwn.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

13. Bydd y Bil yn dod â newidiadau cadarnhaol ac yn cefnogi ein nod cyffredinol i leihau llygredd dŵr yng Nghymru. Mae'r Bil yn deddfu ar ystod o bynciau a materion polisi y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn rhannu nodau ac amcanion clir arnynt.

14. Mae dŵr yn ei hanfod yn fater trawsffiniol, ac mae effeithiau amgylcheddol ansawdd dŵr yn fater na allwn ei ddatrys ar ein pennau ein hunain. Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi mabwysiadu dull cydweithredol yng Nghymru o ran gwella ansawdd dŵr a llywodraethiant yn y sector, ac mae'r Bil hwn yn gyfle i ymestyn y cydweithrediad hwnnw ar draws y ffin.

15. Mae rhai rheoliadau a chyfreithiau hefyd yn gymwys yng Nghymru a Lloegr. Mae dull cydgysylltiedig yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb

rheoleiddiol.

16. Mae rhai elfennau o'r Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, yn enwedig o ran ansolfedd, felly ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir gan y Senedd mor gynhwysfawr â'r cynigion cyfredol.

17. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cytuno eto i gymhwyso cymal 2 i Gymru, sy'n ymwneud â rhoi Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd ar sail statudol. Byddwn yn parhau i adolygu opsiynau ar y mater hwn ac yn gweithio gyda CNC a DEFRA i gytuno ar ddull sy'n briodol i'r cyd-destun a'r dull o ymdrin â'r sector yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol**

18. Nid yw'r Bil ei hun yn cyflwyno unrhyw rwymedigaethau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

19. Mae gan gymal 2 sy'n ymwneud ag offer Monitro Hyd Digwyddiad ddyletswydd sydd ymhlyg ar gwmnïau dŵr i osod systemau perthnasol ar eu seilwaith. Fodd bynnag, mae hyn eisoes ar waith i raddau helaeth ledled Cymru a byddai mewn unrhyw achos yn rhan o setliadau Adolygu Prisiau parhaus ar gyfer y sector gan y rheoleiddiwr Ofwat.

20. Bydd cymalau 5, 6, 8 a 9, sy'n ymwneud â sancsiynau sifil, dirwyon awtomatig ac adennill costau i reoleiddwyr yn caniatáu i reoleiddwyr adennill mwy o’u costau a gosod cosbau ariannol ar gwmnïau dŵr yng Nghymru ar gost a baich gweinyddol is i'r rheoleiddwyr.

21. Mae cymal 12 yn caniatáu ar gyfer adennill costau (ymhlith swyddogaethau eraill) gan Lywodraeth Cymru pe bai'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu ei phwerau ar Weinyddiaeth Arbennig. Mae hyn yn adeiladu ar y gyfraith bresennol ynghylch Gweinyddiaeth Arbennig ac yn caniatáu costau ariannol is neu ddim costau ariannol yn y tymor hir i Lywodraeth Cymru pe bai Gweinyddiaeth Arbennig.

**Casgliad**

22. Yn fy marn i, mae'n briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod ei amcanion yn cyd-fynd yn llwyr â pholisi Llywodraeth Cymru, mae'r mater yn un trawsffiniol yn ei hanfod sy'n gofyn am gydweithio a chydlynu rhwng ein dwy Lywodraeth, ac mae rhai elfennau o'r Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Felly, rwy’n argymell bod y Senedd yn cefnogi’r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**18 Medi 2024**